ELL 03-00(p.4)

Y Pwyllgor Addysg a

Dysgu Gydol Oes

Ms Jane Davidson A.C

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Bae Caerdydd/ Cardiff Bay

Bae Caerdydd Caerdydd/ Cardiff

Caerdydd CF99 1NA

CF99 1NA

Dyddiad/Date 16 Tachwedd 2000

Annwyl Jane

**Y Gyllideb**

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ddoe derbyniwyd eich cynigion ar gyfer y gyllideb ar yr amodau canlynol.

**TGCh mewn Addysg**

Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol oes wedi cytuno i fwrw ymlaen â'r gwaith a ddechreuwyd gan y Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ar TGCh mewn Addysg. Yn ei gyfarfod ddoe derbyniodd y Pwyllgor yr argymhellion yn Adroddiad yr

Ymgynghorydd Arbenigol. Cytunwyd yn benodol y dylid eich gwahodd i fwrw ymlaen â’r tri argymhelliad cyntaf, a hynny ar fyrder. Dyma’r argymhellion:

- Sefydlu **Pwyllgor Ymgynghorol ar Bolisi** ar gyfer TGCh gyda briff datblygu tair blynedd penodol ar gyfer TGCh yn ysgolion Cymru;
- Sefydlu **Tasglu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** fel asiantaeth hyd braich i gyflawni rhaglen ddatblygu dair blynedd ar gyfer TGCh mewn ysgolion;
- Sefydlu **Tîm y Grid Cenedlaethol ar Gyfer Dysgu** i ddarparu’r holl wasanaethau cwricwlwm wedi eu cynllunio, eu paratoi a’u haddasu at ddibenion ysgolion Cymru, sydd yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg.

Roedd y Pwyllgor yn amcangyfrif y byddai cost sefydlu a rhedeg y cyrff hyn tua £1 filiwn y flwyddyn dros dair blynedd.

Yn ogystal, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnal **archwiliad o’r holl offer TGCh mewn ysgolion** yng Nghymru er mwyn hwyluso gwaith y tri chorff i ddatblygu a chyflawni’r strategaeth ar gyfer TGCh mewn ysgolion.

Nid oes darpariaethau wedi eu gwneud ar gyfer y gwaith hwn yn y gyllideb ac roedd y Pwyllgor am hysbysu Gweinidog Cyllid y Cynulliad ei fod yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r angen i sefydlu’r cyrff hyn ac i ddechrau gwaith o ddifrif ar y strategaeth TGCh. Gofynnodd y Pwyllgor i chi dynnu sylw’r Gweinidog Cyllid at y sylwadau hyn, a gofyn iddi ddarparu cyllid ar gyfer y cyrff a’r archwiliad o drefniadau hyblyg diwedd y flwyddyn.

**Darpariaeth Cyfalaf ar gyfer Adeiladau Ysgolion a Chefnogi Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i Blant Teirblwydd**

Gofynnodd y Pwyllgor i chi nodi hefyd ei fod yn teimlo’n gryf y dylid cynnig cyllid ychwanegol ar gyfer adeiladau ysgolion a chefnogi’r strategaeth ar gyfer Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i Blant Teirblwydd yn ail flwyddyn cylch y gyllideb er mwyn sicrhau na chollir momentwm yn y meysydd allweddol hyn.

Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor yn croesawu setliad y gyllideb a gyflwynwyd gennych yn y cyfarfod ddoe.

Cynog Dafis A.C.

Cadeirydd